

MEADOWS, JOSEPH KENNY (1790 - 1874), darluniwr

Enw: Joseph Kenny Meadows
Dyddiad geni: 1790
Dyddiad marw: 1874
Rhiant: James Meadows
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: darluniwr
Maes gweithgaredd: Celf a Phensaerniaeth
Awdur: Cecil John Layton Price

bedyddiwyd 1 Tachwedd 1790 yn eglwys S. Mair, Aberteifi, ail fab James Meadows (hen swyddog yn y llynges). Ni wyddys ddim o'i hanes hyd y flwyddyn 1823, pryd y ceir ef yn gyfrifol am rai o'r darluniau yn *The Mirror of the Stage* a'r lluniau ar garreg ('lithographs') yng ngwaith Planché, *Costume of Shakespere's Historical Tragedy of King John*. Daeth i amlygrwydd mawr gyda *The Heads of the People or Portraits of the English*, 1838-40, gwaith y cyfrannodd W. M. Thackeray iddo. Cyhoeddodd argraffiad darluniadol o weithiau Shakespeare, 1839-43, a bu hefyd yn gwneuthur darluniau ar gyfer rhai o rifynnau Nadolig yr *Illustrated London News*. Priododd ferch John Henning, cerflunydd. Yr oedd yn gyfeillgar â phrif awduron ei gyfnod. Bu farw 19 Awst 1874.

Awdur

Cecil John Layton Price, (1915 - 1991)

Ffynonellau

Cofrestri plwyf S. Mair, Aberteifi

Oxford Dictionary of National Biography

catalog rhif 139 Ifan Kyrle Fletcher

G. N. Ray, gol., *The Letters and Private Papers of William Makepeace Thackeray. Collected and edited by Gordon N. Ray* (London 1945), i, 426

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 3562936

Wikidata: Q6391156

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

Yfrannu

Arddull APA

x

Price, C. J. L., (1953). MEADOWS, JOSEPH KENNY (1790 - 1874), darluniwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 19 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-MEAD-KEN-1790>

Yfrannu

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddiadau
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government